# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| Clerc a Phrif Swyddog Cyllid | 26 Stryd Fawr |
| --- | --- |
| *Clerk and Chief Financial Officer* | Bethesda |
| **Caroline Jones** | Gwynedd |
| 01248 602131 | LL57 3AE |
| CyngorLlanllechid@ogwen.org | |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom**
**nos Iau 14 Ebrill 2022 am 19.00**

**1. PRESENNOL:**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Dafydd Jones
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Megan Tomos

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Jên Morris
Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris
Y Cynghorydd Alun Thomas

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cyng. Jên Morris.**

**2. Ymddiheuriadau** - gan y Cynghorydd Kevin Williams.

**3. Symud ffin Llwyn Bedw a Cae Rhosydd**
Nodwyd fod y Clerc wedi danfon llythyrau at trigolion Llwyn Bedw. Darllenwyd drwy'r holl ymatebion. Gan fod y mwyafrif o drigolion Llwyn Bedw yn erbyn symud y ffin am amryw o resymau gwahanol, penderfynwyd cefnogi y trigolion a pheidio cefnogi'r cais i symud y ffin. Penderfynwyd bydd y Clerc yn danfon llythyr at yr adran Trethi yn Cyngor Gwynedd (Dewi Euron Morgan) i holi am treth cyngor y stâd, nodwyd eu bod wedi bod yn talu treth o dan plwyf Bethesda, a nid Llanllechid. Y Clerc i ddanfon llythyrau i'r trigolion â ymatebodd, i ddiolch iddynt am ei sylwadau ac i nodi ein penderfyniad.

**4. Cofnodion**
Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2022.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion**
**Twll yn y ffordd ger y Wern –** Dim diweddariad. Y Cyng. Dafydd Meurig i holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.
**Cysylltiad Fibreoptig –** Dim cysylltiad gan Openreach. Cyng. Megan Tomos am ymgynghori gyda trigolion cyfagos am y polyn sydd wedi gael ei osod ger Wern Bach.

Unwaith mae hyn wedi ei gwblhau, y Clerc i lythyru Openreach i ofyn iddynt am ddiweddariad.
**Llyn Bryn** –Nodwyd fod y Clerc wedi cysylltu â'r Stad i nodi pryderon y Cyngor am y 3 bwlch, dim ymateb hyd yn hyn.
**Sedd Wag –** Nodwyd fod y Clerc wedi derbyn ebost gan Robin Williams yn datgan diddordeb. Nowyd fod rhaid disgwyl tan ar ôl yr etholiad ym mis Mai cyn y cawn ystyried y cais.
**Arwyddion Maes y Groes –** Dim arwyddion wedi ei osod hyd yn hyn, y Cyngor yn gobeithio y byddent yn gael ei gosod yn fuan iawn.
**Terfyn cyflymder Talybont i Maes y Groes**– Wedi ail gysylltu gyda'r adran traffig, dal heb dderbyn ymateb.
**Datblygiadau Bronydd Isaf –** Dim diweddariad hyd yn hyn, nodwyd fod yr adran gorfodaeth yn hynod o brysur ar hyn o bryd a dim ond 2 aelod o staff yn delio gyda'r holl achosion yn Ngwynedd.
**Gardd Cymunedol** – Nodwyd fod ychydig o waith wedi gael ei wneud, a fydd y gwaith yn gael parhau drost yr wythnosau nesaf.
**Ffordd Llwyn Bleddyn – cais am linellau Melyn** – Dim diweddariad hyd yn hyn.
**Pant Bowls –** Dim ymateb hyd yn hyn. Cyng. Dafydd Meurig i holi eto.
**Ffordd ger Tyddyn Cottages, Talybont** – Nodwyd fod y gwaith hwn bellach ar raglen gwaith Cyngor Gwynedd.
**Bryn Derwas** – Nodwyd fod ddim llawer o le i osod bin halen ger Bryn Derwas. Y Clerc i holi Cyng. Evan Jones os oes leoliad addas.
**Llwybr Capel Gilfach fyny at Bronydd –** Cyng. Alun Thomas am adael i'r Clerc wybod os yw'r gwaith wedi ei gwblhau.
**Prosiect Partneriaeth y Carneddau** – Disgwyl ymateb gan Geraint Williams.
Y Clerc i wahodd Beca Roberts a Geraint Williams i gyfarfod mis Mehefin.
**Gwaith adnewyddu ar y corlannau** - Y Clerc i gysylltu gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i holi os oes grantiau ar gael ar gyfer y math yma o waith.
**Is-bwyllgor Cyllid** – Y Clerc i baratoi a chynnwys Adroddiad Cyllid ar agenda yr cyfarfod nesaf.
**Clwb Hanes Rachub –** Nodwyd fod y Clerc wedi danfon llythyr o ddiolch ac wedi ei ddanfon at dudalen 'facebook' y clwb. Cyng. Megan Tomos i ddanfon manylion cyswllt y clwb i'r Clerc, a'r Clerc i ddanfon y llythyr ymlaen.
**Stad Penrhyn** – Y Clerc i wahodd Elis Jones i gyfarfod, dim ymateb hyd yn hyn.
**Gor-dyfiant Lon Goed –** Nodwyd fod y gwaith wedi gael ei gwblhau.

## 6. Taliadau
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Julian Johnson | Torri gwair mis Mawrth | £160.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad at gostau'r Llyfrgell | £285.43 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio | £3317.14 |

## 7. Cae Pel droed Talybont
Cynhaliwyd noson agored yn y Festri yn Nhalybont ar y 4ydd o Ebrill. Cafwyd noson llwyddiannus iawn a chafwyd diweddariad gan Cyng. Evan Jones am y wahanol sylwadau a dderbyniwyd am y cynlluniau arfaethedig. Penderfynwyd y bydd yn syniad canolbwyntio ar torri'r gwair ar hyn o bryd. Awgrymwyd hefyd fod y clerc yn holi am brisiau ar gyfer 'container', ac hynny i ddal offer torri gwair ar y cae. Y Clerc hefyd i

holi'r adran cynllunio os oes angen caniatad cynllunio ar gyfer rhoid container ar y safle. Cytunwyd y bydd y Cyng. Alun Thomas yn holi am brisiau peiriant torri gwair. Nodwyd fod aelod o'r gymuned wedi cynnig torri'r gwair gyda peiriant ei hun, y Clerc i gysylltu ag ef i drafod ymhellach. Y Clerc i ebostio'r trigolion wnaeth ymateb gyda sylwadau yn ystod y noson agored i ddiolch iddynt am fynychu. Sonwyd y Clerc efallai y byddai modd sefydlu is-bwyllgor ar gyfer y prosiect hwn, ac efallai y bydd modd tynnu arbenigedd Partneriaeth Ogwen i helpu gyda gwthio'r prosiect yn ei flaen.

**8. Rhoddion**

Trafodwyd y rhestr rhoddion a phenderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn.

| | |
|---|---|
| Llais Ogwan | £100.00 |
| Theatr Bara Caws | £50.00 |
| Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd | £50.00 |
| Clwb Criced a Bowlio Bethesda | £50.00 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £300.00 |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £50.00 |
| Marie Curie | £150.00 |
| Nant Ffrancon Brownies | £50.00 |
| Ogwen 360 (Golwg) | £150.00 |
| Ogwen Di-blastig (Dyffryn Gwyrdd) | £50.00 |

**9. Y Mynydd**

Derbyniwyd adroddiad yr Is-bwyllgor Mynydd gan y Cyng. Megan Tomos.

**10. Gohebiaeth**

**Cyflwynwyd –** Un Llais Cymru – Penderfynwyd ymaelodi y flwyddyn yma, y Clerc i drefnu.

**Cyflwynwyd** – Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd- Ymgynghoriad Cyhoeddus – Holiadur Anghenion Tai . Nodwyd yr ohebiaeth.

**Cyflwynwyd** – Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith – Penderfynwyd cefnogi'r ohebiaeth hwn. Y clerc i ddanfon y llythyr parod ymlaen at Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg gyda chopi cc at Siân Gwenllian AS.

**Cyflwynwyd** - Gareth Llwyd, Llais Ogwan - Adroddiadau o'r Cynghorau Cymuned ar gyfer Llais Ogwan - Y Cadeirydd i benderfynu beth sy'n cael ei cynnwys yn dilyn pob cyfarfod.

**Cyflwynwyd –** Cyngor Cymuned Bethesda - Cronfa Lleol Eisteddfod Llyn ac Eifionydd - cais i ethol cynrychiolwyr – penderfynwyd y bydd y Cyng. Megan Tomos yn mynychu ar ran y Cyngor.

**11. Adoddiadau gan Gynrychiolwyr**

Nodwyd fod y Cyng. Geraint Hughes wedi ymddiswyddo o Fwrdd Partneriaeth Ogwen yn dilyn cais gan Partneriaeth Ogwen i ei gwmni, Grwp Ymgynghori Lafan, weithio ar wireddu elfennau o waith datblygu prosiect 'Cadwyn Ogwen.' Nodwyd y Cynghorydd ei fod yn fwy na hapus i ymuno yn ôl fel aelod o'r Bwrdd pan fydd yn glir o bosibiliadau gwrthdaro buddiannau.

**12. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C20/0504/21/LL**
Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid
Codi tŷ fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd â thanc cynaeafu dŵr
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**NP3/21/28E**
Bronydd Uchaf, Llanllechid
Codi adeilad amaethyddol yn cynnwys storfa slyri tan ddaearol
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0206/21/CR**
Pont Tal Y Bont, Bangor,
Gwaith dros dro i osod dau beipen lawr ochr y bont (hyd at Rhagfyr 2022)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

**13. Materion Brys**
**Cyfarfod 'hybrid' –** Penderfynwyd y bydd y Cyngor yn rhoid cynnig ar gyfarfod 'hybrid' eto mis nesaf yn Nghanolfan Cefnfaes.